

NEATH
PORT TALBOT
CVS
CASTELL-NEDD PORT TALBOT

Adroddiad Effaith Blynyddol

2021-2022

Cefnogi, hyrwyddo a datblygu'r sector gwirfoddol lleol

Ein Heffaith ledled Castell-nedd Port Talbot

Mae ein Hadroddiad Effaith Blynyddol yn dangos y gwahaniaethau cadarnhaol yr ydym wedi eu gwneud i gymunedau ledled Castell-nedd Port Talbot yn ystod y flwyddyn 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022.

Sefydliad ambarél ar gyfer y trydydd sector yng Nghastell-nedd Port Talbot yw Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot. Rydym yn gweithio gyda'r sector i gryfhau cymunedau ac i newid bywydau. Rydym yn ymgyrchu dros Gastell-nedd Port Talbot, ei gefnogi, ac yn datblygu sefydliadau gwirfoddol, gweithredu cymunedol a gwirfoddoli yno.

Mae gennym 375 o aelodau a chysylltiadau â llawer o sefydliadau drwy ystod eang o rwydweithiau lleol, rhanbarthol, a chenedlaethol a'r cyfan yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yng Nghastell-nedd Port Talbot. Ni fyddem yn gallu gwneud hyn heb gefnogaeth ein cyllidwyr a'n partneriaid.

Mae Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot yn aelod o rwydwaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru, sef partneriaeth sy'n cynnwys Cynghorau Gwirfoddol Sirol, Canolfannau Gwirfoddoli a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Gyda'n gilydd, rydym yn cefnogi trydydd sector bywiog Cymru drwy weithio yn unol â gofynion y cytunwyd arnynt â Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am weithgareddau a manylion aelodaeth Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot, ewch i www.nptcvs.wales

Ymunwch â ni ar y cyfryngau cymdeithasol @NPTCVS:

Cynnwys

Rhagair	4
Cyflwyniad	5
Y Flwyddyn yn Gryno	6
Cyllid Cynaliadwy	7
Gwirfoddoli	8
Ymgysylltu a Dylanwadu	9
Llywodraethu Da	10
Gwybodaeth, Cyngor a Hyfforddiant	10
Iechyd Gofal Cymdeithasol a Lles	11
Dyfyniadau	12
Gweinyddiaeth yr Ymddiriedolwyr a'r Elusen	13
Cyfrifon	14





Rhagair

David Davies YH
Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Mae'n rhoi pleser mawr i mi gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer blwyddyn 2021-2022. Ffurfiwyd y sefydliad ym 1997 ac yn ystod ei holl flynyddoedd o weithredu, a fy swyddogaeth yn ymddiriedolwr ac yn gadeirydd, a fu erioed gyfnod o ansicrwydd mor ddwys y mae'r sector gwirfoddol wedi gorfod ei wynebu? Mae digwyddiadau byd-eang trasig a'r argyfwng costau byw sy'n gwaethygu wedi effeithio ar gymunedau lleol, a gamodd i'r adwy mewn modd mor rhyfeddol yn ystod y pandemig ac a ddechreuodd gynllunio ar gyfer yr adferiad. Os oedd unrhyw amheuaeth erioed, nid oes dim amheuaeth yn awr, sy'n dangos pa mor amlwg y mae digwyddiadau byd-eang wedi effeithio ar y sector cymunedol a gwirfoddol, megis sectorau eraill. Bu'n anodd llywio sefydliad drwy gyfnod mor heriol, wrth i fyrddau ymddiriedolwyr a phwyllgorau rheoli ddehongli a rhagweld anghenion uniongyrchol ac anghenion y dyfodol er mwyn cynllunio'n effeithiol sut i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth.

Rwy'n falch iawn o'r rhan y mae'r Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol wedi ei chwarae — ac yn parhau i'w chwarae — mewn ymdrech gydweithredol enfawr i fynd i'r afael â'r heriau sylfaenol hyn. Bellach, wrth i ni wynebu her sy'n gyfartal neu fwy na'r hyn a achoswyd gan y pandemig, mae effaith digwyddiadau byd-eang yn ei gwneud yn fwy amlwg ac angenrheidiol i weithio'n agosach gyda'n gilydd ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol â'n haelodau gwirfoddol a chymunedol gwerthfawr, a'n partneriaid strategol yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Yn rhinwedd fy swydd Cadeirydd, hoffwn ddiolch i fy nghydweithwyr ymddiriedolaethol ar y bwrdd sydd wedi rhoi o'u hamser yn hael wrth ddarparu canllawiau, cefnogaeth, a gwaith craffu i'r sefydliad. Dengys yr Adroddiad Blynyddol hwn unwaith eto ddyfnder ymrwymiad y Cyfarwyddwr a thîm y staff, sydd wedi cyflawni a pherfformio i'r safonau uchaf wrth brofi pwysau o ran capasiti a chynnydd sylweddol yn y galw am gefnogaeth.

Cyflwyniad



Gaynor Richards MBE DL LLD (Anrh)
Cyfarwyddwr

Yn Adroddiad Blynyddol y llynedd, soniais y bu'r flwyddyn y fwyaf heriol i ni ei hwynebu. Er y bu rhywfaint o sail i fod yn obeithiol wrth inni ddod allan o'r pandemig ac roeddem yn gweld egin gwyrdd adferiad (yn ei ystyr ehangaf), daeth yn amlwg y byddai optimistiaeth yn ildio i ymateb i'r gwrthdaro geowleidyddol byd-eang a'r pryder yn ein cymunedau am effeithiau cyntaf y cynnydd sylweddol mewn costau byw, a'r cyfan yn dwyn cyfnodau tywyllach i gof. Mae'n lle na fyddai'r un ohonom wedi dychmygu y byddem ni ynddo.

Effeithiwyd ar iechyd a lles pobl, yn enwedig iechyd meddwl, yn sylweddol dros y 3 blynedd diwethaf ac mae'n bwysig ein bod ni fel sefydliad, ynghyd â'n partneriaid, yn gweithio'n galed i roi cymorth a chefnogaeth i'r rhai sydd ei angen fwyaf. Mae hynny'n golygu parhau i gryfhau ein grwpiau cymunedol a'n sefydliadau a chefnogi gwirfoddolwyr yn y cyfnodau anodd iawn hyn. Mae grwpiau cymunedol eu hunain yn wynebu cynnydd digynsail mewn costau, galw a chapasiti ymchwyddol, a thrafferthion recriwtio staff a gwirfoddolwyr newydd.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn dangos ein bod wedi cyflawni ymrwymiadau cytundebol â phartneriaid allweddol ac wedi dod â gwerth ychwanegol drwy gyflawni y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir ohonom. I ni, yn sefydliad, yn ogystal â bod yn ofyniad cyfreithiol a darparu set o ddata ystadegol ac ariannol, mae darparu'r Adroddiad Blynyddol hefyd yn ymwneud â'r straeon go iawn sydd y tu ôl i'r rhifau, straeon am wirfoddolwyr, defnyddwyr gwasanaeth, grwpiau gwirfoddol, a sefydliadau. Y nhw sy'n tanategu'r Adroddiad Blynyddol hwn ac iddyn nhw y telir teyrnged wrth weithio mor galed er gwaethaf pob disgwyl i ddarparu'r gefnogaeth a'r gwasanaethau drwy ein cymunedau.

Er bod yr Adroddiad Blynyddol yn dangos yr hyn y mae'r sefydliad wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn adrodd, ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl heb ein partneriaid na'n cyllidwyr. Diolch iddynt am eu cefnogaeth ac am ein cynnwys ni a'r sector gwirfoddol a chymunedol ehangach wrth gyflawni ein hamcanion a'n dyheadau cyffredin sydd â'r nod o wneud bywydau'n well yn ein bro.

Nid oes dwywaith nad oes cyfnod anodd o'n blaenau. Bydd y sefydliad yn parhau i fod yn ymrwymedig ac yn gyson wrth weithio mewn partneriaeth i liniaru'r cyfnod anodd hwn, drwy gefnogi ac annog y sector er mwyn cynyddu ei ymdrechion ar y cyd i sicrhau adnoddau hanfodol i ddarparu cefnogaeth a gwasanaethau.

Y Flwyddyn yn Gryno



Llywodraethu Da

Sefydlwyd **15** o grwpiau newydd.

Cefnogwyd **85** o grwpiau i gryfhau eu trefn lywodraethu.



Cyllid Cynaliadwy

afwyd **£2,100,000** o gyllid gan grwpiau yn dilyn cyngor.

Darparwyd **£110,126** o gyllid drwy gynlluniau grant a weinyddir gan y sefydliad.

Cefnogwyd **122** o sefydliadau i gael gafael ar arian.

Ymgysylltu a Dylanwadu

Cefnogwyd **56** o fforymau neu rwydweithiau trydydd sector.

94 o grwpiau cynllunio/gweithgorau strategol yn cynnwys cynrychiolaeth trydydd sector.



Gwirfoddoli

Cynorthwyodd **115** o unigolion drwy wirfoddoli.

Cefnogwyd **63** o sefydliadau ag arferion gwirfoddoli da.



Gan ganolbwyntio ar barhad busnes a darparu gwasanaethau, gwnaethom barhau i gyflawni ein gweithgareddau craidd y pedair colofn strategol, sef cyllid cynaliadwy, gwirfoddoli, ymgysylltu a dylanwadu, a llywodraethu da. Gwnaethom weithio'n agos gyda'n partneriaid allweddol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth, y cyngor, a'r arweiniad gorau posibl ar gael wrth gefnogi grwpiau, sefydliadau, ac unigolion lleol.

Cyllid Cynaliadwy

Gwnaethom weithio gyda grwpiau a sefydliadau lleol, yr oedd nifer ohonynt yn poeni am gyllid cynaliadwy tymor canolig a thymor hwy. Gwnaethom eu helpu i gael gafael ar gyllid a ddarperir trwy amrywiaeth o ffynonellau cyllid yn ogystal â gweinyddu a dosbarthu grantiau ar gyfer y sector.

Ein Cyflawniadau

- Cafwyd **£2,100,000** o gyllid gan grwpiau yn dilyn cyngor
- Darparwyd **£110,126** o gyllid trwy gynlluniau grant a weinyddwyd gennym. Cefnogwyd 122 o sefydliadau i gael gafael ar gyllid

Prosiect Cefnogi Cymunedau

Gyda chyfalaf gan Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Pen y Cymoedd, buom yn gweithio mewn partneriaeth ag Interlink RhCT i gefnogi grwpiau a sefydliadau ledled ardal y gronfa i gael gafael ar gyllid er mwyn darparu prosiectau lleol.

Cronfa Adnewyddu Cymunedol

Buom yn gweithio gyda'r sector i sicrhau **£500,000** gan Gronfa Adnewyddu Cymunedol y DU i ddarparu cynllun grant i Sefydliadau'r Trydydd Sector.

Pwyslais ar...
SPAG (Supporting People Achieve Goals)

Gyda'r dymuniad o gynnal yr ysbryd cymunedol a grëwyd yn ystod y pandemig, aeth gwirfoddolwyr o Lansawel ati i sefydlu grŵp cymunedol newydd o'r enw SPAG (Supporting People Achieve Goals). Mae'r grŵp yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau ar gyfer eu cymuned leol, gan gynnwys: mynediad at fwydydd dros ben, grŵp rhieni a phlant, boreau coffi yn ogystal â gweithgareddau a digwyddiadau i blant lleol.



Gwirfoddoli

Adferiad a gweithio'n ôl i'r gwirfoddoli a'r gweithgareddau gwirfoddoli a fodolai cyn y pandemig fu'r pwyslais allweddol dros y flwyddyn adrodd. Dechreuodd y cynnydd yn nifer y bobl a gyflwynodd eu hunain i wirfoddoli yn ystod y pandemig lonyddu wrth i sefydliadau baratoi ar gyfer adferiad. Mae gwirfoddoli wedi parhau i fod yn swyddogaeth allweddol a chraidd o'n cefnogaeth ac mae'n parhau i fod yn rhan hanfodol o gymdeithas ddinesig. Mae ein cymunedau a'n grwpiau lleol yn dibynnu ar y rhai sy'n rhoi o'u hamser yn hael fel y gellir darparu gwasanaethau a chefnogaeth y mae mawr eu hangen ledled y Fwrdeistref Sirol.

Ein Cyflawniadau

Trwy gydol y flwyddyn, rydym wedi:

- Cyfeirio **115** o bobl i gyfleoedd i wirfoddoli
- Hwyluso **4** cyfarfod Grŵp Cefnogaeth gan Gymheiriaid ar gyfer Rheolwyr Gwirfoddoli ac roedd **63** o sefydliadau gwirfoddoli yn bresennol ynddynt
- Cyflwyno **9** sgwrs ynghylch gwirfoddol i ddarparwyr addysg, cyflogwyr a grwpiau cymunedol sydd â diddordeb mewn recriwtio gwirfoddolwyr
- Gweithio gyda darparwyr addysg a sefydliadau'r trydydd sector i greu cyfleoedd i fyfyrwyr Bagloriaeth Cymru
- Darparu **3** sesiwn hyfforddi ar reoli gwirfoddolwyr yr oedd **28** o gyfranogwyr yn bresennol
- Gwirfoddolodd y staff mewn Canolfannau Brechu Torfol yn ystod gwyliau'r Nadolig

Ein Prosiectau Gwirfoddoli

Gwnaethom ddarparu tri phrosiect gwirfoddoli a helpodd unigolion ar draws pob ystod oedran a theuluoedd sydd angen cymorth.

Gweithffyrdd +


Nod Gweithffyrdd + yw helpu pobl i ddatblygu bywyd gwell drwy helpu pobl i gael gwaith. Mae'r prosiect yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli, hyfforddiant, a gwaith â thâl. Yn ystod y flwyddyn adrodd, gwnaeth elfennau gwirfoddoli y prosiect y canlynol:

- Cefnogi **14** o wirfoddolwyr unigol
- Gweithio gyda **63** o sefydliadau i ddatblygu arferion gwirfoddoli da

Cymdeithion Cymunedol

Daeth y prosiect, a gefnogai'r rhai a oedd yn profi unigrwydd ac ynysigrwydd, i ben yn ystod y flwyddyn. Gwnaeth y prosiect y canlynol:

- Cefnogi **275** o fuddiolwyr a recriwtio a hyfforddi **240** o wirfoddolwyr a roddodd **6,000** o oriau o amser gwirfoddoli
- Galluogi **17** o wirfoddolwyr a buddiolwyr i ffurfio cyfeillgarwch parhaus



SHINE

Ariennir y prosiect gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot, ac mae'n darparu cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i blant, pobl ifanc a theuluoedd drwy eu cysylltu â chyfaill gwirfoddol. Gwnaethom ddatblygu prosiect treialu allgymorth mewn ysgol uwchradd leol hefyd i archwilio ffyrdd y gallai'r trydydd sector ehangach gefnogi rhieni. Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth y prosiect y canlynol:

- Recriwtio **31** o wirfoddolwr, gan ddarparu **4,836** awr o amser gwirfoddoli
- Cefnogi **27** o blant, pobl ifanc, a theuluoedd
- Cyflwyno **32** o sesiynau hyfforddi i baratoi a datblygu gwirfoddolwyr
- Cyflwyno **8** sesiwn allgymorth mewn ysgol uwchradd leol

Cronfa Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot

Mae'r gronfa yn cefnogi gwirfoddolwyr ifanc (14–25 oed) i fod yn rhan o banel grant dan arweiniad ieuenctid sy'n dyrannu cyllid i grwpiau lleol i ddatblygu cyfleoedd gwirfoddoli sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc. Gwnaeth y prosiect y canlynol:

- Cefnogi **5** aelod o'r panel gwirfoddolwyr ifanc a gyfarfu **4** gwaith yn ystod y flwyddyn
- Dosbarthu **£6,698.00** i **7** grŵp lleol, gan arwain at ddatblygu **127** o gyfleoedd gwirfoddoli newydd i bobl ifanc

Ymgysylltu a Dylanwadu

Trefnodd a hwylusodd y Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol gyfarfodydd ar-lein ar gyfer fforymau a rhwydweithiau trydydd sector, gan roi cyfle i ddod â grwpiau, sefydliadau, ac unigolion at ei gilydd. Buom yn ymgysylltu â phartneriaid allweddol ar lefel strategol yn lleol, yn rhanbarthol, ac yn genedlaethol i ddylanwadu ar bolisïau, strategaethau, cynllunio a darparu sy'n effeithio ar y trydydd sector.

Gwnaeth ein gweithgarwch y canlynol:

- Gweithio gyda Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg i ddatblygu dull rhanbarthol o wirfoddoli ac edrych ar ffyrdd arloesol o gynnwys gwirfoddolwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.
- Gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe; gwnaethom gynnal digwyddiad gyda dros **100** o gyfranogion i nodi sut y gallwn weithio'n well gyda'n gilydd i ehangu'r gefnogaeth sydd ar gael i'r GIG gan y trydydd sector.
- Coladu gwybodaeth a alluogodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i lunio papur sy'n arddangos y gwaith a'r gwerth ychwanegol y mae'r trydydd sector yn ei ddwyn i gefnogi iechyd a lles y boblogaeth.
- Cefnogi proses gomisiynu Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe drwy hwyluso gweithdai a chreu cyfleoedd i'r trydydd sector gyfrannu at fframwaith gomisiynu'r Bwrdd Iechyd.
- Gwnaethom gefnogi'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i gynnal asesiad o anghenion iechyd, gofal cymdeithasol a chymorth y boblogaeth er mwyn darparu sylfaen dystiolaeth o'r ddarpariaeth gwasanaethau a ddefnyddir i lywio'r gwaith cynllunio a chomisiynu.
- Gwnaethom arwain ar ddatblygiad Strategaeth gyntaf Gofalwyr Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg a'r Cynllun Gweithredu Rhanbarthol Brys ar gyfer Gofalwyr.
- Gwnaethom gymryd rhan ym Mwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg, Byrddau Trawsnewid, Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr, a Fforwm Cyswllt Gofalwyr Gorllewin Morgannwg.
- Gyda phartneriaid yng Ngorllewin Morgannwg, buom yn cefnogi ac yn hwyluso digwyddiadau Posibiliadau i Bobl drwy gydol y flwyddyn ac yn cymryd rhan mewn paneli cyllido a oedd yn dosbarthu Cronfeydd Gofal Integredig i'r sector.
- Gwnaethom ni gymryd rhan yn natblygiad Strategaeth Cynllunio'r Dyfodol pum mlynedd Cefnogi Trydydd Sector Cymru.
- Gwnaethom drefnu a hwyluso digwyddiad ymgynghori gyda'r sector ar Gynllun Corfforaethol y Cyngor: Adfer, Ailosod, Adfywio.
- Gwnaethom gymryd rhan yn gynnar yn y broses o ffurfio'r bartneriaeth â'r cyngor ac eraill i gefnogi argyfwng Wcráin.
- Gwnaethom barhau i gefnogi partneriaeth 'Safe and Well' Castell-nedd Port Talbot.
- Gwnaethom drefnu **46** o fforymau a rhwydweithiau trydydd sector lleol a rhanbarthol, gan ganolbwyntio ar iechyd, gofal cymdeithasol a lles, cyd-gynhyrchu, gwerth cymdeithasol, gofalwyr, plant a phobl ifanc, ac iechyd meddwl.
- Gwnaethom gynnal cyfarfodydd â'n Haelodau Senedd lleol i dynnu sylw at anghenion y sector ac i lywio a dylanwadu ar broses llunio polisïau Llywodraeth Cymru.
- Gwnaethom barhau i arwain a chymryd rhan yng Ngrŵp Cydgynhyrchu Gorllewin Morgannwg, sy'n helpu i ymgorffori egwyddorion cydgynhyrchu ar draws Partneriaeth Gorllewin Morgannwg.
- Gwnaethom weithio gyda phartneriaid ar draws y rhanbarth i helpu Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i ddosbarthu bron i **600** o welyau ysbyty maes nas defnyddiwyd.

Pwyslais ar... Lesiant Gaeaf i Ofalwyr

Mae Neurological Rehabilitation Wales (NRWales), menter gymdeithasol a leolir yn Nyffryn Castell-nedd, wedi sefydlu Grŵp Cefnogaeth gan Gymheiriaid llwyddiannus ar gyfer gofalwyr, yn sgil cyllid a gafwyd drwy Gronfa Lles y Gaeaf Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot. Mae NRWales yn cynnig cymorth adsefydlu arbenigol i'r rhai sydd wedi eu heffeithio gan strôc neu anaf i'r ymennydd, ac wrth weithio gyda'r cleifion, adnabu'r hyfforddwyr yr angen am gymorth emosiynol i'w gofalwyr hefyd. Erbyn hyn, mae'r Grŵp Cefnogaeth gan Gymheiriaid yn darparu man diogel lle gall gofalwyr ddod at ei gilydd, cwrdd ag eraill sydd mewn sefyllfa debyg a dysgu am ba wasanaethau cymorth sydd ar gael iddynt.

Llywodraethu Da

Gwnaethom ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth i sefydliadau i'w galluogi i ganolbwyntio ar adfer busnes wrth i gymunedau ddod allan o'r pandemig. Gwnaethom ddarparu cefnogaeth i ymddiriedolwyr, i gynyddu eu hyder, eu sgiliau a'u gwybodaeth, a rhoesom gefnogaeth ddwys i sefydliadau, i'w helpu i fynd i'r afael â chynllunio ariannol.

Ein Cyflawniadau

- Sefydlwyd **15** o grwpiau newydd
- Cefnogwyd **85** o grwpiau i gryfhau eu trefn lywodraethu

Gwobr y Frenhines am Wasanaeth Gwirfoddol

Dyfarnwyd Gwobr y Frenhines am Wasanaeth Gwirfoddol i Lyfrgell Gymunedol Cymer Afan ym mis Awst 2021. Gan gyfateb i MBE, Gwobr y Frenhines am Wasanaeth Gwirfoddol yw'r gwobrau uchaf a roddir i grwpiau gwirfoddol lleol yn y DU, ac fe'u dyfernir am oes.



Gwybodaeth, Cyngor a Hyfforddiant

Gwnaethom ddarparu'r wybodaeth, y cyngor a'r hyfforddiant yr oedd eu hangen arnynt i sefydliadau trydydd sector, ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr, fel y gallant barhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth i'w cymunedau a defnyddwyr gwasanaeth.

Parhaodd mynediad at wybodaeth ddigidol a chefnogaeth i lawer yn ystod y flwyddyn adrodd; fodd bynnag, dechreuodd mwy o grwpiau gwrdd wyneb yn wyneb neu ddefnyddio dull hybrid.

Ein Cyflawniadau

- Gwnaethom ddarparu cyngor a chanllawiau uniongyrchol i **398** o sefydliadau
- Gwnaethom gefnogi **82** o sefydliadau i gael cyngor ac arweiniad arbenigol
- Gwnaethom ddarparu **19** o sesiynau hyfforddi i **82** o gyfranogwyr o grwpiau a sefydliadau lleol, a **32** o sesiynau hyfforddi ar wahân i baratoi a datblygu gwirfoddolwyr

Iechyd Gofal Cymdeithasol a Lles

Iechyd Meddwl

- Gwnaethom lunio cyfeirlyfr o wasanaethau iechyd meddwl ar-lein

Rhagnodi Cymdeithasol

- Cawsom dros **2,100** o apwyntiadau un i un ag unigolion yn rhan o'r gwasanaeth Rhagnodi Cymdeithasol a ddarperir ar ran Clwstwr Afan a Chlwstwr Uchaf y Cymoedd

Cymorth Allgymorth i Gymunedau Amrywiol

- Buom yn cydweithredu â phartneriaid i ddarparu gweithdai iechyd a lles sy'n ddiwylliannol sensitif mewn ysgol uwchradd leol, gyda mwy na **40** o ddisgyblion yn bresennol. Mae'r ysgol yn ystyried cyfarfodydd rheolaidd â rhieni a disgyblion Du, Asiaidd, a Lleiafrifoedd Ethnig
- Rydym wedi ymgysylltu â **500** o aelodau'r gymuned BME drwy arolygon treialu, sesiynau chai a sgwrs, hyfforddiant, gweithdai, digwyddiadau a gweminarau
- Rydym wedi gweithio'n agos gyda Cymdeithas Gymunedol Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig Castell-nedd Port Talbot a phartneriaid eraill i gael gafael ar wybodaeth, arweiniad a chefnogaeth gydag iechyd, addysg, busnes, a materion eraill sy'n effeithio'n anghymesur ar ein cymunedau amrywiol

Gofalwyr

Gwnaethom barhau i gefnogi gwaith Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg drwy'r gwaith canlynol:

- Datblygu Fforwm Cyswllt Gofalwyr
- Datblygu a chymeradwyo'r Strategaeth Gofalwyr a dechrau cynllun gweithredu i roi'r strategaeth ar waith
- Gweithio gydag Ysgol y Gyfraith Abertawe i gyflawni cyfres o feddygfeydd cyfreithiol i ofalwyr er mwyn darparu gwybodaeth, cefnogaeth, eiriolaeth a chymorth i wneud penderfyniadau gwybodus

Rhyddhau Cleifion o'r Ysbyty

- Drwy'r Gwasanaeth Lles Cymunedol, gwnaethom helpu **121** o gleifion i gael eu rhyddhau o'r ysbyty gyda chefnogaeth ymarferol ac emosiynol.

Wardiau Rhithwir

- Drwy wardiau rhithwir wythnosol, gwnaethom helpu i wella gofal i gleifion drwy gymryd rhan yn y tîm amlddisgyblaethol, gan ddarparu cefnogaeth gyfannol i'r rhai sy'n fregus ac sydd ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth. Gwnaethom gefnogi **85** o gleifion eraill hefyd drwy'r timau wardiau rhithwir amlddisgyblaethol, drwy eu cyfeirio i wasanaethau trydydd sector sy'n hybu byw'n annibynnol a lles.

Cludiant i Ganolfannau Brechu

- Gwnaethom drefnu **1,032** o deithiau unigol i alluogi pobl i deithio i ganolfannau brechu torfol. Roedd hyn yn cynnwys codi pobl ar fyr rybudd yn ystod argyfyngau a threfnu i gasglu cleifion mewn canolfannau brechu a oedd yn sâl.

Brechu Teg

- Gwnaethom gefnogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe â'r cyfeiriad strategol ac i weithredu Strategaeth Brechu Teg ar gyfer Rhaglen Frechu COVID-19 Cymru yn lleol er mwyn sicrhau y gallai pawb a oedd yn gymwys i gael brechiad gael mynediad diogel a hawdd i'r gwasanaeth brechu.

Cydgynhyrchu

- Gwnaethom barhau i weithio gyda chydweithwyr rhanbarthol i sicrhau bod cydgynhyrchu yn rhan annatod o Bartneriaeth Gorllewin Morgannwg. Mae hyn hefyd yn cynnwys cefnogaeth i unigolion gymryd rhan yn y broses.

Gwerth Cymdeithasol

- Rydym wedi cefnogi gwaith y Fforwm Gwerth Cymdeithasol ledled Gorllewin Morgannwg ac wedi gweithio gyda chydweithwyr i wella sgiliau aelodau o ran sut i fesur gwerth cymdeithasol.

Yr hyn y mae'r rhai yr ydym wedi gweithio gyda nhw wedi ei ddweud:



Gan ein cleifion gwasanaeth rhagnodi cymdeithasol...

"Mae'r gefnogaeth yr ydych wedi ei rhoi wedi achub fy mywyd... Rwyf wedi mynd o fod eisiau rhoi diwedd ar fy mywyd i fod eisiau byw eto."

"Mae gallu siarad â rhywun wedi bod yn gymorth mawr i mi a fy nheulu i weld newid cadarnhaol yn y ffordd rwy'n ymateb i sefyllfaoedd sy'n achosi straen."

Gan grwpiau lleol...

"Diolch o galon am ein helpu i sefydlu'r grŵp hwn. Mae wedi rhoi pwrpas i mi eto. Rwyf wedi bod eisiau helpu pobl eraill erioed, felly rwy'n edrych ymlaen yn fawr at y dyfodol nawr."

"Diolch i chi am eich cefnogaeth. Rwy'n teimlo'n fwy hyderus ar ôl eich cefnogaeth."

"Drwy eich swyddogaeth bresennol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, rydych chi wedi sefydlu perthynas wych â'r gymuned Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghastell-nedd Port Talbot."

Gan ein prosiectau a gynhelir gan wirfoddolwyr...

"Mae gwirfoddoli wedi bod o fudd i mi mewn sawl ffordd drwy fagu fy hyder, gwella fy mhrydlondeb, fy ngwaith tîm a fy ngwella i fel unigolyn." – **gwirfoddolwr**

"Diolch am eich hyfforddiant gwych. Roedd e'n fewnweledol ac yn ddiddorol iawn." – **gwirfoddolwr**

"Roedd fy nghyfaill gwirfoddol yn ddeallgar ac yn hawdd siarad â hi. Roeddwn i'n gallu crio iddi. Fe wnaeth hi fy nghefnogi i drwy gyfarfodydd, ac fe wnaeth fy helpu gyda ffurflenni." – **buddiolwr y prosiect**

"Rydym ni wedi gweld newid mawr yn T ers iddo feithrin perthynas â'i gyfaill. Mae e'n aros i mewn yn fwy ac yn siarad yn fwy â ni fel teulu." – **rhiant**

Gan Bractisau Meddyg Teulu...

"Diolch am geisio gwneud y gorau i'n cleifion bob amser. Mae newidiadau nodedig yn nifer o'n cleifion yn sgil eich cefnogaeth."

"Mae'n ymddangos bod cleifion eisiau dweud llawer mwy wrthych chi nag y maen nhw'n ei ddweud wrthym ni, ac allan nhw ddim eich canmol chi'n fwy pan fyddwn yn cael cyfarfod dilynol gyda nhw."

Gan ofalwyr...

"Mae'n galonogol i mi fod strategaeth ar waith i gefnogi'r holl ofalwyr."

"Rwy'n gwybod fy mod yn cael fy mharchu a bod fy llais yn bwysig."



Gweinyddiaeth yr Ymddiriedolwyr a'r Elusen

Castell-nedd Port Talbot Bwrdd Ymddiriedolwyr y CVS 2021 –2022

Barbara Cole
David Davies YH (Cadeirydd)
Louise Fleet CStJ YH
Hugh James (o fis Rhagfyr 2021)
Joanna Jenkins MBE DL YH
Doreen Jones
Mary Lythgoe MBE (tan fis Rhagfyr 2021)
Lorraine Miles
Clive Owen BEM
Dr Edward Roberts MBE DL CStJ FRCGP (Is-gadeirydd)
Malcolm Scott

Lesley Smith
Edred Thomas (Bu farw ym mis Mehefin 2022)
Gwenda Thomas
Emma Tweed
Linda Whittaker

Eglwys Llangatwg
Clwb Rotari Castell-nedd
Thrive Women's Aid
Plwyf Llansawel
YMCA Castell-nedd
Age Connects Castell-nedd Port Talbot
Canolfan Gofal Plant Tiddlywinks
Neath Port Talbot Shopmobility
Gofal Cruse Bereavement Morgannwg
Marauders Men's Health
View (Glynneath) Limited —
Canolfan Hyfforddi Glyn Nedd
VIEW (DOVE) Limited
Cymdeithas Dynion Baglan
Canolfan Maerdy
Gofal a Thrwsio Bae'r Gorllewin
Tai Tarian

Aelodau Cyfetholedig

Gwag - Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Trysorydd

John Flynn

Archwilwyr

Bevan Buckland LLP,
Cyfrifwyr Siartredig
Cardigan House
Castle Court
Parc Menter Abertawe
Abertawe SA7 9LA

Bancwyr

Lloyds Bank

Ysgrifennydd y Cwmni

Mrs Gaynor Richards MBE DL LLD (Anrh)

Llywydd Oes

Mrs Margaret Thorne CBE DL



Cyfrifon

Datganiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot cyf

Barn

Rydym wedi adolygu'r datganiadau ariannol cryno ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, sy'n cynnwys y datganiad cryno o incwm cynhwysfawr a'r datganiad o sefyllfa ariannol. Mae'r datganiadau ariannol cryno yn cael eu tynnu o'r datganiadau ariannol blynyddol llawn archwiliedig, a gymeradwywyd gan y bwrdd. Roedd adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol ar y datganiadau ariannol blynyddol llawn yn ddiamod. Nid yw'r Cyfrifon cryno yn cynnwys digon o wybodaeth i ganiatáu dealltwriaeth lawn o faterion ariannol y cwmni elusennol. Gellir cael copi o ddatganiadau ariannol blynyddol llawn ac Adroddiad yr Ymddiriedolwyr o'r swyddfa gofrestredig.

Barn ar y datganiadau ariannol cryno:

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol cryno yn gyson â datganiadau ariannol blynyddol llawn Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

Nid ydym wedi ystyried effeithiau unrhyw ddigwyddiadau rhwng y dyddiad y llofnodwyd ein hadroddiad ar y datganiadau ariannol blynyddol llawn, a dyddiad yr adroddiad hwn.

Priod gyfrifoldebau'r bwrdd a'r archwilydd

Mae'r bwrdd yn gyfrifol am baratoi'r adroddiad blynyddol cryno yn unol â chyfraith berthnasol y Deyrnas Unedig.

Ein cyfrifoldeb ni yw adrodd i chi am ein barn ar gysondeb y datganiadau ariannol cryno yn erbyn datganiadau ariannol blynyddol llawn ac Adroddiad yr Ymddiriedolwyr.

Rydym hefyd yn darllen y wybodaeth arall sydd yn yr adroddiad blynyddol cryno ac yn ystyried y goblygiadau i'n hadroddiad os ydym yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysondebau perthnasol yn y datganiadau ariannol cryno.

Gwnaethom gynnal ein gwaith yn unol ag ISA (720) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae ein hadroddiad ar ddatganiadau ariannol blynyddol llawn y cwmni elusennol yn disgrifio sail ein barn ar y datganiadau ariannol hynny ac ar Adroddiad yr Ymddiriedolwyr.

Alison Vickers (Uwch Archwilydd Statudol)
Ar gyfer ac ar ran Bevan Buckland LLP
Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Statudol
Abertawe
SA7 9LA

Datganiad o Weithgareddau Ariannol (Ymgorffori Cyfrif Incwm a Gwariant) Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm y Cronfeydd 2022 £	Cyfanswm y Cronfeydd 2021 £
INCWM A GWADDOLION O:				
Gweithgareddau elusennol	216,006	1,225,558	1,441,564	1,958,183
Gweithgaredd masnachu arall	33,932	-	33,932	16,252
Incwm Buddsoddi	5,090	-	5,090	7,047
Cyfanswm	255,028	1,225,558	1,480,586	1,981,482
GWARIANT AR:				
Gweithgareddau elusennol	203,932	1,049,092	1,253,024	1,739,827
Cyfanswm	203,932	1,049,092	1,253,024	1,739,827
INCWM/GWARIANT NET	51,096	176,466	227,562	241,655
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd	-	-	-	-
ENILLION/(COLLEDION) CYDNABYDDEDIG ERAILL:				
Enillion/(colledion) ar ailbrisio eiddo buddsoddi	34,500	-	34,500	-
SYMUDIAD NET MEWN CRONFEYDD	85,596	176,466	262,062	241,655
CYSONI ARIAN Cyfanswm yr arian a ddygwyd ymlaen	1,244,046	661,597	1,905,643	1,663,988
CYFANSWM YR ARIAN A DDYGWYD YMLAEN	1,329,642	838,063	2,167,705	1,905,643

GWEITHREDIADAU PARHAUS
Mae'r holl incwm a gwariant wedi deillio o weithgareddau parhaus

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol
Ar 31 Mawrth 2022
(Rhif Cwmni 3341466)

	2022 £	2021 £
ASEDAU NAD YDYNT YN GYFREDOL		
Eiddo, offer trwm a chyfarpar	395,827	408,466
Eiddo buddsoddi	120,000	85,500
ASEDAU CYFREDOL		
Dyledwyr	49,036	341,527
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	1,779,108	1,222,838
	1,828,144	1,564,365
RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL	(176,266)	(152,688)
ASEDAU CYFREDOL NET	1,651,878	1,411,677
CYFANSWM YR ASEDAU WEDI TYNNU'R RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL	2,167,705	1,905,643
ASEDAU NET	2,167,705	1,905,643
CRONFEYDD		
Cronfeydd anghyfyngedig	1,329,642	1,244,046
Cronfeydd cyfyngedig	838,063	661,597
CYFANSWM Y CRONFEYDD	2,167,705	1,905,643

Nodiadau i'r datganiadau ariannol
Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

SYMUDIADAU YN Y CRONFEYDD	At 01.04.21	Symudiad net mewn cronfeydd	At 31.03.22
Cronfeydd anghyfyngedig			
Cronfeydd anghyfyngedig	54,162	51,851	106,013
Cronfeydd dynodedig	1,080,000	-	1,080,000
Cronfeydd cyfalaf dynodedig	24,384	(755)	23,629
Eiddo buddsoddi cronfeydd cyfalaf dynodedig	85,500	34,500	120,000
	1,244,046	85,596	1,329,642
Cronfeydd cyfyngedig			
Cronfeydd cyfyngedig	277,515	188,351	465,866
Cronfeydd cyfalaf cyfyngedig	384,082	(11,884)	372,198
	661,597	176,466	838,063
	1,905,643	262,062	2,167,705

Mae Cronfeydd Dynodedig yn cynrychioli:	£
Costau critigol	325,000
Cynnal gweithgareddau craidd a datblygu staff	665,000
Cronfa wrth gefn offer TGCh	15,000
Atgyweiriadau mawr	75,000
	1,080,000
Gwariant Cyfalaf Dynodedig	143,629
	1,223,629

Y costau critigol yw'r costau cynllunio wrth gefn ar gyfer y costau critigol i gefnogi amcanion tymor canolig yr elusen.

Mae'r elusen wedi dynodi costau rhedeg am gyfnod sylfaenol o bedwar mis.

Mae'r cronfeydd dynodedig eraill ar gyfer gwariant arfaethedig a fydd yn cael ei glirio yn y tymor canolig.

Balans y gronfa cyfalaf cyfyngedig, sef £372,198 (2021 — £384,082), yw'r gwerth net sydd ar y llyfrau ar gyfer yr adeiladau a'r offer a brynwyd drwy grant cyfyngedig. Y trosglwyddiad o'r gronfa wrth gefn hon yw'r tâl dibrisiant am y flwyddyn.

Mae'r gronfa Gwariant Cyfalaf Dynodedig yn adlewyrchu gwerth yr arian a wariwyd ar yr asedau diriaethol nad ydynt wedi eu hariannu o incwm grant. Gwariant allan o'r cronfeydd cyffredinol yw'r balans hwn.

Cronfeydd anghyfyngedig — cronfeydd cyffredinol yr elusen sydd ar gael i'w gwario at unrhyw un o ddibenion yr elusen yw'r gronfa hon. Cofnodion mantoli ar gyfer y trosglwyddiadau a nodir uchod mewn cronfeydd dynodedig a chyfyngedig yw'r trosglwyddiadau i mewn i'r gronfa hon ac allan ohoni.